**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

****1.00PM, DYDD IAU, 21 IONAWR 2010**

****1.00PM, THURSDAY, 21 JANUARY 2010**

*(**noder yr amser cychwyn os gwelwch yn dda/please note the start time**)*

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eleri Parry**

**(01286) 679601**

**eleriwynparry@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 13/01/10)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

13 Ionawr/January 2010

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 21 IONAWR 2010**


**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **21 IONAWR 2010 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 21 JANUARY 2010**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **21 JANUARY 2010 IN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai
Llais Gwynedd – Siambr Hywel Dda
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Ogwen
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1 GWEDDI**

Bydd y Cynghorydd Dyfed Edwards yn agor y cyfarfod gyda gweddi.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6 MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7 CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**8 STRATEGAETH GWASTRAFF**

Cyflwyno adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol. (copi yma - papur ***hufen***).

**9 ARGYMHELLION STATUDOL YR ARCHWILIWR AR GYFRIFON 06/07**

Cyflwyno llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru. (copi yma – papur ***gwyrdd***).

**10 STRATEGAETH HYFFORDDI AELODAU**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Pennaeth Adnoddau Dynol. (copi yma – papur ***melyn***).

**11 DIWYGIO'R CYFANSODDIAD**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. (copi yma – papur ***glas***).

**12 AROLWG FFINIAU ETHOLIADOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. (copi yma – papur ***pinc***).

**13 POLISI GAMBLO**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio. (copi yma – papur ***gwyn***).

**14 TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid. (copi yma – papur ***lelog***).

**15 RHYBUDDION O GYNNIG**

(a)(i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Bod y Cyngor hwn yn cyfyngu cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio Canolog i drafod materion cynllunio sy'n berthnasol i Wynedd yn ei chyfanrwydd, megis chwarelu, mwyngloddio, llifogydd a'r diwydiant ynni ac yn y blaen, gan adael y Pwyllgorau Cynllunio Ardal i ymdrin â cheisiadau cynllunio perthnasol i'w hardaloedd ac yn atebol i'r Cyngor Llawn"***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar yr uchod. (copi yma – papur ***glas***)

(b) (i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Bod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu polisi o roddi'r hawl penodi Dirprwy i gynrychioli grŵp mewn pwyllgor lle mae'r aelod a benodwyd yn methu mynychu oherwydd amgylchiadau arbennig h.y. gwaeledd, profedigaethau neu fater arall na ragwelwyd o flaen llaw."***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar yr uchod. (copi yma – papur ***gwyrdd***)

(c) (i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd John Pughe Roberts yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Yn y flwyddyn 2011, yr hen Sir Gaernarfon, sef rhan o Wynedd a rhan o Sir Conwy fydd yn noddi Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Mae ymdrechion ar dro ar draws y sir i godi arian i hybu'r sioe, ac i'w wneud yn ŵyl lewyrchus a chofiadwy.***

***Yn wyneb hyn, mae rhieni ac athrawon yn ogystal ag eraill sy'n gweithio yn ein hysgolion wedi dwyn i sylw'r anhawster sy'n ein hwynebu oherwydd gwyliau ysgol yng Ngwynedd a Sir Conwy.***

***Mae'r sioe i'w chynnal o ddydd Llun hyd ddydd Iau sef o'r 19eg hyd 22ain Gorffennaf. Yn anffodus fel mae trefniadau ar hyn o bryd nid yw'r ysgolion yn cau tan 21ain Gorffennaf 2011, a gall hyn amharu yn enfawr ar drigolion Gwynedd yn ogystal â phresenoldeb ar faes y sioe. Yn wyneb synnwyr cyffredin, er budd pawb, rwyf yn cynnig fod ysgolion Gwynedd fel ysgolion eraill yng Nghanolbarth a De Cymru yn cau ar y dydd Gwener, 16 Gorffennaf 2011"***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Addysg ar yr uchod. (copi yma - papur ***pinc***)

(ch) (i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Louise Hughes yn cynnig fel a ganlyn:-

***" Rwyf yn cynnig bod safle Tonfannau ger Tywyn yn cael ei ystyried o ddifrif fel lleoliad ar gyfer y carchar newydd arfaethedig i ogledd Cymru.***

***Gan bod safle Ferodo ger Caernarfon erbyn hyn wedi'i ddileu o'r broses (sy'n newyddion trychinebus i economi Gwynedd), mae'n hanfodol nad yw Cyngor Gwynedd yn colli'r symbyliad i ddilyn yr amcan hwn yn egnïol."***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar yr uchod. (copi yma – papur ***llwyd***)

# AGENDA

**1 PRAYER**

Councillor Dyfed Edwards will open the meeting with a prayer.

**2 APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**3 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**4 THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS**

To receive any Chairman's announcements.

**5 CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS**

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

**6 URGENT BUSINESS**

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered

**7 QUESTIONS**

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 12.

**8 WASTE STRATEGY**

To submit the report of Dilwyn Williams, Corporate Director. (copy herewith - ***cream*** paper).

**9 AUDITORS STATUTORY RECOMMENDATIONS ON THE 2006/07 ACCOUNTS**

To submit a letter from the Wales Audit Office. (copy herewith – ***green*** paper)

**10 MEMBERS' TRAINING STRATEGY**

To submit the report of the Head of Democracy and Legal and Head of Human Resources. (copy herewith - ***yellow*** paper).

**11 AMEND THE CONSTITUTION**

To submit the report of the Head of Democracy and Legal. (copy herewith - ***blue*** paper).

**12 REVIEW OF ELECTORAL BOUNDARIES.**

To submit the report of the Head of Democracy and Legal. (copy herewith - ***pink*** paper).

**13 GAMBLING POLICY**

To submit the report of the Head of Regulatory. (copy herewith – ***white*** paper).

**14 COUNCIL TAX: DISCRETIONARY POWERS TO ALLOW DISCOUNTS**

To submit the report of the Head of Finance. (copy herewith – ***lilac*** paper).

**15 NOTICE OF MOTION**

(a)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Alwyn Gruffydd will propose as follows:-

***"That this Council restricts the responsibility of the Central Planning Committee to discuss planning matters which are relevant to Gwynedd as a whole such as quarrying, mining, flood defences, the energy industry etc. leaving the Area Planning Committees to deal with planning applications relevant to their areas and accountable to the Full Council."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be

discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To consider the report of the Head of Democracy and Legal on the above. (copy herewith – ***blue*** paper).

(b)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Owain Williams will propose as follows:-

***"That Gwynedd Council adopts a policy of allowing the appointment of a Substitute to represent a group in a committee when the appointed member is unable to attend due to special circumstances, i.e. illness, bereavement or another matter that had not been anticipated beforehand."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To consider the report of the Head of Democracy and Legal on the above. (copy herewith – ***green*** paper).

(c)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor John Pughe Roberts will propose as follows:-

***"In 2011, it will be the former County of Caernarfonshire, namely a part of Gwynedd and part of the County of Conwy that will be sponsoring the Royal Welsh Show at Builth Wells. Efforts are underway across the county to raise money to promote the show and to make it a successful and memorable festival.***

***In view of this, parents and teachers along with others working in our schools have highlighted the difficulty facing them because of the school holidays in Gwynedd and Conwy.***

***The show will be held from Monday until Thursday, that is, from 19 - 22 July. Unfortunately, as arrangements currently stand, the schools do not close until 21 July 2011 and this could have a substantial detrimental effect on Gwynedd residents along with attendance at the showground. In the face of common sense and for everyone's benefit, I propose that Gwynedd schools, like other schools in mid and south Wales, close on the Friday, 16 July 2011."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To consider the report of the Head of Education on the above. (copy herewith – ***pink*** paper).

(ch) (i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Louise Hughes will propose as follows:-

***"I propose that the Tonfannau site near Tywyn be seriously considered as a location for the proposed new prison for North Wales.***

***In view of the fact that the Ferodo site near Caernarfon has now been eliminated from the process (which is disastrous news for the economy of Gwynedd), it is imperative that Gwynedd Council does not lose the initiative in vigorously pursuing this objective"***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To consider the report of Iwan Trefor Jones and Dafydd Lewis , Corporate Directors on the above. (copy herewith – ***grey*** paper).